**Y LLE LLANELLI**

## Sefyllfa bresennol

Gweithredu ar sail gwbwl wirfoddol. Heriol gan nad oes staff ond yn wych o rhan gorfodi pobl i gymeryd cyfrifoldeb. Haws bod yn gorff sydd ddim wedi clymu. Hwn wedi arwain at brosiectau sydd yn fwy creadigol a phobl yn dod a'i hadnoddau i'r bwrdd ac yn cyd weithio llawer mwy. Hefyd yn PR arbennig o dda i'r iaith yn y dref ac wedi arwain at newidiadau mawr mewn agweddau rhai pobl oherwydd yr ystod a'r math o brosiectau sydd yn cael eu cynnig. Y gymuned di-Gymraeg wedi perchnogi'r ganolfan yn ogystal a siaradwyr Cymraeg. Mae'n hunangynhaliol. Yr her nawr yw i greu digon o incwm i gynnal y peth a'i ddatblygu er mwyn cwrdd ag anghenion y gymuned. Rydym wedi ymgysylltu gyda a gwrando ar ein cymuned wrth gynllunio ac wedi cael parch am wneud hyn. ee osgoi caffi, canolbwyntio ar bobl ifanc a chreu partneriaethau newydd. Mae hwn yn brosiect cyunedol go iawn!









## Llwyddiannau hyd yn hyn

Aros ar agor!

Cynyddu ein niferoedd ymgysylltu a’r grwpiau sydd yn defnyddio’r lle

Cynyddu ein bas data er mwyn marchnata a hyrwyddo

Datblygu (Gweler isod)

# Dylanwadu ar ddefnydd ac agweddau rhieni sydd a phlant bach

Dosbarthu pecynnau addysg Gymraeg drwy brosiect Ffotograffiaeth Halibalw sydd wedi eu lleoli yn y Lle. Hwn yn gweithio gan fod perthynas yn cael ei adeiladu gyda mamau a thadau sydd newydd gael plant.







**‘Since we’ve been involved with Y Lle we ave decided to send Ella to the Welsh stream at her school and having had a baby girl last year she will be going down the same route.’**

**Lynsey Morgan**

**‘We had a great time with Halibalw - Kelly was so good with the kids and we were given a Welsh language booklet to go away with. My partner Jason actually read it and decided to visit Y Lle again for a local beer and FIFA night - Ffion is down on the list for Ysgol FFwrnes in September.’**

**Chantelle Rook**

## Dylanwadu ar ddefnydd ac agweddau plant a theuluoedd

Sefydlu prosiect Pom Poms ar gyfer datblygu partion plant dwyieithog - cyfle da i ddosbarthu pecynnau addysg Gymraeg a cyflwyno pobl i'r Gymraeg a dathlu ymgyrchoedd cenedlaethol. Rydym ni fel rhan o'r partion yn cynnwys cwestiynau er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg o fewn pecynnau sydd yn ymwenud a'r pwnc. Y Lle sydd yn cyd drefnu llawer o ddigwyddiadau BID Llanelli ac sy'n eu cynorthwyo i gyfieithi dogfennau. Rydym hefyd wedi darparu partion preifat ar yr amod (rheol) bod pawb yn canu penblwydd hapus yn Gymraeg!! Niferoed wedi cynyddu yn sylwedol ers dechrau.














# Dylanwadu ar ddefnydd ac agweddau pobl ifanc

**Clwb ieuenctid Y Lle**
Darparu gweithgaredd wythnosol tu allan i oriau ysgol mewn partneriaeth gyda'r Urdd

Rydym ni ar y drydedd cylch o glwb ieuenctid blynyddoedd 7-9 (7 ac 8 mewn gwirionedd) Rhwng 16 a 24 yn mynychu'n rholaidd.


Plant hŷn yn dychwelyd fel gwirfoddolwyr gyda'r prosiect

Gweihwyr ieuenctid wedi ael eu mentora gan wirfoddolwyr a'i asesu ar gyfer cymhwyster gradd gwaith ieuenctid a chymuned. Dau wedi mynd trwy'r broses a dau wedi cael gradd dosbarth cyntaf. Geraint Jones a Deiniol Jones. Y ddau wedi cael gwaith fel canlyniad i'r prosiect.

Y clwb yn cynnwys gweithdai, sesiynau ymwybyddiaeth, bar smwddi's siop, pwl, swit TG, ping pong a stiwdio recordio ac ymarfer. Rydym hefyd yn rhan o gynllun bancio amser gwirfoddoli ac yn mynd ar deithiau.



















**Ysgol Roc**

Gweithgareddau rheolaidd ar gyfer datblygu sgiliau cerddorol yn seiliedig ar fodel Bocswn Menter iaith Mon. Fel rhan o'r ysgol roc rydym yn dysgu pobl ifanc sut i chwarae offerynnau ac yn cynnal gigs ieuenctid er mwyn rhoi cyfle iddyn nhw i gwrdd gyda'r bobl sy'n perfformio. Rydym yn cynnal Ysgol Roc yn ystod gwyliau'r haf a hanner tymor Chwefror, ac wedi cyfansoddi darnau ar gyfer Dydd Miwsig Cymru 2018



**Gigs Ieuenctid**

Bu'r Lle yn cydwweithio gyda criw o bobl ifanc o Ysgol y strade wrth gynllunio cyfres o gigs ar gyfer blwyddyn 10+. Ein bwriad wrth gynyddu incwm i'r Lle yw i wneud un gig y Cwarter ar gyfer anelu'n benodol tuag at y gynulledifa yma a datblygu cyfres o gigs ar gyfer teuluoedd.




Bu’r Lle yn cydweithio gyda criw o bobl ifanc o Ysgol y strade wrth gynllunio cyfres o gigs ar gyfer blwyddyn 10+. Ein bwriad wrth gynyddu incwm i’r Lle yw i wneud un gig y Cwarter ar gyfer anelu’n benodol tuag at y gynulledifa yma a datblygu cyfres o gigs ar gyfer teuluoedd.

## Dylanwadu ar ddefnydd ac agweddau oedolion

### Creu clybiau diddordeb newydd sydd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg a chlwb alawon gwern Cymraeg ar gyfer y di-Gymraeg

**Gweithdai chwibanau tymhorol - cyflwyniad syml i alawon Cymraeg**



**Gweithdai ‘masterclass’ pibau ar gyfer cerddrion safonol**



**Clwb wythnosol Ukulele ar gyfer pobl o bob oed - gyda eithiau a nosweithiau gwadd**













**Cynnal gigs Cymraeg cyfoes neu sesiynau gwerin o fewn tafarndai'r dref yn ogystal a'r Lle er mwyn normaleiddio'r Gymraeg a icrhau ei bod yn cae ei chlywed.**

















## Cymreigo darpariaethau presennol drwy gynnwys PAWB!

**Cegin gawl y Sosban** - Darparu gofod ar gyfer agor bob nos Sul er wyn galluogi pobl i ddefnyddio'r wasanaeth yma yn rhad ac am ddim PR anhygoel i'r Lle a llawer o bartneriaethau newydd wedi datblygu. Mae'r grwp nawr yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg ar ei rhestr gwirfoddoli ac mae un aelod o'r grwp wedi dechrau cwrs mynediad drwy Prifysgol Aberystwyth



Clwb TG - Mae clwb TG yn cwrdd yn wythnosol yn y Lle er mwyn trafod gwaith

Ail greu traddodiadau megis y Fari Lwyd a'ri fynd o amgylch Llanelli gyda pobl leol sydd am ddysg mwy am yr hanes.

**Gar Gwyl 2017**
Sefydlu Gwyl gerddoriaeth newydd i'r dref mewn partneriaeth gyda'r siop gerddoriaeth leol. Rydym wedi dechrau'r gwaith trefnu ar gyfer 2018 yn barod.










**Dydd Miswisg Cymru**

Mae'r canwr Ragsy oddi ar rhaglen The Voice yn defnyddio'r Lle i ysgrifennu albwm 12 trac newydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym ni hefyd yn edrych i ddatblygu taith ar ei gyfer wrth iddo ymarfer defnyddio ei Gymraeg. Rydym yn ei gefnogi i ddygu'r iaith.




**Sefydlu Noson Cwrw Cymru  flynyddol gyda 22 o fragdai o Gymru yn darparu eu cynnyrch.**
25c i ffwrdd o bob peint os yw pobl yn defnydio eu Cymraeg neu'n ymdrechu i ddysgu cwpwl o eiriau.



**Gweithredu fel canolfan wybodaeth**

Ail greu ac arddangos elfennau o hanes Cymru o fewn y Lle gan gynnwys prynu a chreu'r Fari Lwyd i'w harddangos yn ogystal a darnau o gelf er mwyn codi ymwybyddiaeth o Ddydd Owain Glyndwr, Cymdeithas yr Iaith, Dydd Miwsig Cymru, Y Beasleys. Rydym hefyd wrthi'n comisiynu saer i wneud fersiwn o'r 'Welsh not' i'w arddangos ynghyd a chadair straeon bydd yn cael ei ddefnyddio i ddweud storiau i blant.



**Y Dyfodol?**

**Tymor byr**

Datblygu a darparu sesiynau hyforddi radio gyda Llanelli Online gan sefydlu strwythur ar gyfer darlledu i sianelu presennol gan edrych i ddefnyddio Raspberry pi i gael darllediadau mewn i'r siopau.

Agor clinig therapi fforddiadwy gyda Susan Johns ar yr amod ei bod yn mynychu cwrs mynediad. Mae wedi dechrau ers mis Medi.

Cynyddu incwm er mwyn trefnu mwy o gigs ieuenctid

Darparu clwb ieuenctid noson arall o'r wythnos

**Tymor hir**

Agor stiwdio gymunedol ar gyfer darlledu a chreu cynnyrch ar gyfer Bay TV

Agor adeilad arall yn yr un stryd er mwyn ehangu'r ganolfan. Tafodaethau wedi bod gyda perchnogwyr drws nesaf!

Adeiladu bunkhouse ar y trydedd llawr er mwyn croesawi bandiau i aros os ydynt wedi teithio o bell.

Adeiladu storfa dau lawr wrth gefny yr adeilad er mwyn cadw adnoddau ar gyfr gwyliau ac ymgyrchoedd.